TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cofnodion Bwrdd TrC

**18 Ebrill 2024**

10:00 – 17:00

Lleoliad – St. Patrick's House a Teams

---

**Yn Bresennol:** Scott Waddington (Cadeirydd), Alun Bowen, Heather Clash, Vernon Everitt, Sarah Howells, Nicola Kemmery, Alison Noon-Jones a James Price.
**Hefyd yn bresennol:** Peter MacDonald (eitemau 1 i 4), Jeremy Morgan, a Brian Jenkins (Arsylwr, eitemau 1 i 11).

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ymddiheurodd Alan McCarthy (Unite).

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Dim.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**
Derbyniwyd bod cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 21 Mawrth 2024 yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**
Ystyriodd y Bwrdd adroddiad o ddamwain trên yn India ym mis Hydref 2023 a achoswyd gan y gyrrwr yn tynnu ei sylw a'r risg o fod yn hunanfodlon. Trafododd y Bwrdd rinweddau technoleg canfod er mwyn hwyluso gwell ffocws.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**
Tynnwyd sylw'r Bwrdd at y profiad diweddar o fenyw â phroblemau symudedd yn derbyn gwasanaeth ardderchog o ran gwasanaeth i gwsmeriaid.

**2. Adroddiad a diweddariad y Prif Swyddog Gweithredol**

Bu'r Bwrdd yn trafod cynnwys adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol. Roedd y trosolwg yn cynnwys diweddariadau ar y canlynol:

- Ymdrech sylweddol nifer o gydweithwyr, yn enwedig y Tîm Cyllid, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nododd y Bwrdd ei fod yn croesawu cydweithio da â swyddogion Llywodraeth Cymru.

- Trafodaethau strategol lefel uchel gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth.
- Gwelliant parhaus ar draws perfformiad gweithredol y rheilffyrdd, yn enwedig ar Linellau Craidd y Cymoedd, sy'n cael ei ddangos gan y dangosyddion perfformiad ond sydd hefyd yn cael ei ddangos yn anecdotaidd drwy lai o gwynion gan gwsmeriaid. Fodd bynnag, mae diffyg trenau *Class 197* a phroblemau dibynadwyedd cerbydau *MKIV* yn parhau i fod yn broblem. Gan nodi bod cynllun gwella ar waith i wella cyfradd cyflawni trenau *Class 197*, heriodd y Bwrdd y weithrediaeth i gyflawni rhagor o welliannau gan CAF ac i archwilio rhinweddau rhyddhau amser y Prif Weithredwr neu nodi cymorth i hwyluso newid.
- Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau wrth i drenau *Class 150* ddod i ben ac wrth i drenau *Class 756* ymuno â'r gwasanaeth ar yr un cyflymder. Nododd y Bwrdd y materion ynghylch mynediad i wasanaeth trenau *Class 756* a chytunodd i barhau i bwyso ar y weithrediaeth i sicrhau trosglwyddiad effeithiol ac amserol rhwng trenau *Class 150* a threnau *Class 756*. Croesawodd y Bwrdd y newyddion am y trenau *Class 756* cyntaf yn rhedeg llwybr yn ystod y dydd ar y rhwydwaith TAM fel rhan o'r broses o gael mynediad at brofion gwasanaeth.
- Nododd y Bwrdd y materion a drafodwyd ar draws y fflyd rheilffyrdd a herio'r weithrediaeth i sicrhau bod risgiau a chyfathrebu â chwsmeriaid yn cael eu lliniaru'n effeithiol.
- Cynnydd o ran darparu'r '*T-network*' i gynyddu trafnidiaeth rhyngfoddol a chynyddu cyfran trafnidiaeth gyhoeddus o'r farchnad.
- Roedd llwyddiannau diweddar o ran rheoli dau ddigwyddiad pêl-droed rhyngwladol lle'r oedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn gam ymlaen o gynigion blaenorol. Roedd hyn yn cynnwys oedi trên am awr i ganiatáu i gêm rhwng Cymru a Gwlad Pwyl orffen. Nid oedd yr oedi bwriadol i ganiatáu i gefnogwyr ddal y trên ar ôl yr oedi cyn gorffen y gêm wedi'i gynnwys yn y ffigurau perfformiad. Croesawodd y Bwrdd adborth cadarnhaol Cymdeithas Bêl-droed Cymru.
- Effaith gadarnhaol gynnar is-bwyllgor Perfformiad Gweithredol newydd Bwrdd Rheilffyrdd TrC.
- Parhau i weithio'n agos gyda gweithredwyr ac awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â'r agenda bysiau.

*Gadawodd Scott Waddington y cyfarfod, a chymerodd Nicola Kemmery yr awenau fel cadeirydd.*

[redacted]

**3. Cyllid**

Nododd y Bwrdd y cyfrifon rheoli ar gyfer mis Mawrth 2024; a'r adroddiad cysylltiedig yn tynnu sylw at weithgareddau a chanlyniadau ariannol ar gyfer blwyddyn lawn 2023/2024. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion y cymhorthdal i Wasanaethau Rheilffyrdd TrC a chymhariaeth

â chyllideb cynllun busnes 2023/2024 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Mae canlyniadau diwedd blwyddyn ar gyfer 2023/2024 yn adlewyrchu gostyngiad ymylol mewn gwariant refeniw yn erbyn cyllid a chynnydd mewn gwariant cyfalaf sy'n cyd-fynd â gofynion cyllido Llywodraeth Cymru.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran adrodd Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn y parth cyhoeddus, a gwaith parhaus ar ddatblygu'r amgylchedd rheolaethau mewnol.

Cymeradwyodd y Bwrdd lythyrau o gefnogaeth i TfW Innovation Services Ltd a Pullman Rail. Fel Cadeirydd Pullman Rail Ltd, datganodd Alun Bowen fuddiant ac ni gymerodd ran yn y bleidlais. Fel cyfarwyddwr cwmni Pullman Rail Ltd, datganodd James Price fuddiant ac ni gymerodd ran yn y bleidlais.

Nododd y Bwrdd gynnwys y cynllun ariannol tymor canolig pum mlynedd a'r angen i wella ffocws masnachol a bod yn fwy creadigol o ran cynhyrchu refeniw.

**4a. Is-bwyllgorau'r Bwrdd**

Roedd cyfarfod diweddar y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys cyflwyniad ar risgiau TrC o ran yr hinsawdd; a diweddariadau ar yswiriant, rheoli risg, yr amgylchedd rheolaethau mewnol, ac archwilio mewnol.

Adolygodd y pwyllgor '*T-Network*' ei gylch gorchwyl a chytuno ar galendr clir o eitemau i'w cyflwyno i'r pwyllgor.

**4b. Is-fyrddau'r cwmni**

Roedd cyfarfod bwrdd blaenorol Rheilffyrdd TrC Cyf yn canolbwyntio ar berfformiad rheilffyrdd, newidiadau i amserlenni mis Mehefin a mis Rhagfyr 2024, strategaeth gatiau tocynnau yn y dyfodol a chyllidebau.

**5. Diogelwch**

*Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.*

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o'r adroddiad Iechyd, Diogelwch a Chadernid a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Datblygu dull strategol o ymdrin ag iechyd, diogelwch, cynaliadwyedd, risg a chadernid, gan gefnogi a galluogi masnachfreinio bysiau.
- Cynnull grŵp llywio i hwyluso menter strategol hirdymor gyda'r nod o ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad teithio cwsmeriaid.
- Perfformiad diogelwch, gyda'r Bwrdd yn nodi gostyngiad yn nifer y digwyddiadau yn y gweithlu a gostyngiad nodedig mewn damweiniau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithlu. Adolygodd y Bwrdd ffigurau absenoldeb oherwydd straen ac er nad oedd y dadansoddiad yn nodi unrhyw risgiau penodol mewn unrhyw grŵp demograffig, bydd dadansoddiad a thrafodaeth bellach yn cael eu cynnal yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles.

*Ailymunodd Scott Waddington â'r cyfarfod gan ailgydio yn yr awenau fel y cadeirydd.*

**6. Rheoli risg yn strategol**

Nododd y Bwrdd y Gofrestr Risg Strategol a'r Adroddiad ar Lefelau Bygythiad ar gyfer mis Ebrill 2024. Nododd y Bwrdd risg newydd o ran sefyllfa ariannol cyflenwr TrC. Nododd y Bwrdd risgiau sy'n ymwneud â Pullman Rail hefyd a chytunodd Alun Bowen i roi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol **[Alun Bowen i weithredu]**.

**7. Strategaeth TG a Gwasanaethau Digidol**

*Ymunodd Mandy Garrett â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd wybodaeth am y Strategaeth Gwasanaethau Digidol a TG tair blynedd sy'n cael ei datblygu. Atgoffwyd y Bwrdd o'r tueddiadau presennol o ran technoleg a symudedd byd-eang y mae angen i'r strategaeth eu hystyried.

Cafodd y Bwrdd ei gyflwyno i bum amcan allweddol y strategaeth, sef cwsmeriaid, cydweithwyr, data, tîm a thechnoleg. Nododd y Bwrdd y diweddariad a chroesawodd a chefnogwyd y dull strategol arfaethedig.

Trafododd y Bwrdd faterion yn ymwneud â rhoi'r gwaith ar gontract allanol yn erbyn darpariaeth fewnol; archwaeth risg; a'r angen i TG fod yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg **[Alun Bowen i weithredu]**.

*Gadawodd Mandy Garrett y cyfarfod.*

**8. Cenedlaethau'r Dyfodol**

*Ymunodd Natalie Rees â'r cyfarfod.*

Atgoffwyd y Bwrdd y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymuno â nhw yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gynhyrchu brîff Cadeirydd **[Natalie Rees i weithredu]**.

*Gadawodd Natalie Rees y cyfarfod.*

**9. Mynediad i wasanaeth *Class 765* a *Class 398***

*Ymunodd Dan Tipper â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach yn ystod y dydd i drafod materion yn ymwneud â mynediad i wasanaeth trenau *Class 765* a *Class 398*. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni cymeradwyo, rhaglenni profi ac amcangyfrifon o ddyddiadau mynediad i wasanaeth.

**10. Diweddariad ar Linellau Craidd y Cymoedd**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd rhaglen Linellau Craidd y Cymoedd:

- Mae cyfarpar llinellau uwchben (OLE) Rheilffordd Merthyr wedi cael ei wefru'n barhaol gan agor rhagor o seilwaith ar gyfer profi trenau.
- Cytunwyd ar y broses drosglwyddo ar gyfer Depo Ffynnon Taf i Weithrediadau TrC. *Cam 1 – Mae swyddfeydd a sied cynnal a chadw* wedi'u targedu ar gyfer diwedd mis Mehefin 2024; a *Cam 2 – Asedau trac, signalau ac OLE*, yn dilyn cymeradwyaeth ASBO ac ORR i ddilyn yn ddiweddarach yn Ch3 2024.
- Mae blocâd comisiynu CAR 1 (Stryd y Frenhines, Llinell Bae Caerdydd ac elfennau sy'n weddill o ôl troed CAR 1) yn cael ei archebu ar gyfer Hydref/Tachwedd 2025.

[redacted]

*Gadawodd Dan Tipper y cyfarfod.*

**11. Y Bwrdd Llywio**

Trafododd y Bwrdd Llywio diweddar MaaS, recriwtio Cyfarwyddwyr Anweithredol (NED), adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol, cyllideb a chyllid, risg, a dangosyddion perfformiad allweddol.

**12. Sesiwn gyfrinachol**

Nododd y Bwrdd y cynnydd o ran ateb gohebiaeth ddiweddar a dderbyniwyd gan y Bwrdd.

*Gadawodd Heather Clash y cyfarfod.*

Trafododd y Bwrdd berfformiad y Weithrediaeth.

**Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.**